

PROTOCOL ARFER GORAU TPC 2C

DIFFYG PRESENOLDEB APELYDD

Cyflwyniad

1. Mae'r rheoliadau'n caniatáu i unrhyw barti ymddangos yn bersonol neu gael eu cynrychioli mewn gwrandawriad.
2. Caiff parti sy'n dymuno i'r apêl fynd ymlaen yn ei habsenoldeb:
 - Benodi cynrychiolydd i ymddangos ar ei rhan, neu
 - ddarparu cyflwyniad ysgrifenedig i'w ystyried yn ei habsenoldeb.

Deddfwriaeth

- Rheoliad 29 o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Cymru) 2005 (OS 2005/758)
- Rheoliad 25 o Reoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestri ac Apelau) 1993 (OS 1993/290)
- Rheoliad 36 o Reoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010 (OS 2010/713)

Cynrychiolydd

3. Pan fydd y parti wedi penodi cynrychiolydd i ymddangos ar eu rhan, mae'n rhaid iddynt hysbysu Tribiwnlys Prisio Cymru (TPC) ar unwaith.
4. Mae'n **rhaid** i unrhyw barti nad yw'n mynd i fod yn bresennol yn y gwrandawriad tribiwnlys ddarparu awdurdod ysgrifenedig i'w gynrychiolydd weithredu ar ei ran.
5. Gallai methiant i hysbysu'r TPC yn gywir, arwain at ohirio'r gwrandawriad apêl.

Cyflwyniadau Ysgrifenedig

6. Pan fo'r parti wedi dewis peidio ag ymddangos neu i gael ei gynrychioli, gallant gyflwyno eu dadl drwy gyflwyniad ysgrifenedig.
7. Er mwyn i'r apêl fynd blaen trwy gyflwyniad ysgrifenedig, mae'n angenrheidiol i'r parti **ddarparu copi o'u tystiolaeth/dadleuon i TPC o leiaf 2 ddiwrnod gwaith cyn gwrandawriad y Tribiwnlys.**

8. Gall cyflwyniad ysgrifenedig gynnwys:
- datganiad o'r mater (ion) sy'n destun yr anghydfod
 - esboniad o'r penderfyniad a geisiwyd gan y Tribiwnlys/Panel Apêl
 - manylion y dadleuon a'r dystiolaeth y dibynnir arnynt, gall y rhain gynnwys dadleuon cyfreithiol/deddfwriaeth/cyfraith achos
 - copïau o unrhyw ddogfennau perthnasol
9. Bydd TPC, ar ôl derbyn y cyflwyniad ysgrifenedig, yn anfon copi ymlaen at y parti /partion eraill er gwybodaeth.
10. Bydd copïau o'r cyflwyniad ysgrifenedig yn cael eu rhoi i'r Tribiwnlys/Panel Apêl i'w hystyried ar ddiwrnod y gwrandawriad.
11. Os nad yw'r apelydd yn mynychu/heb ei gynrychioli ac nad yw wedi darparu cyflwyniad ysgrifenedig, caiff y Tribiwnlys/Panel Apêl:
- glywed yr apêl yn absenoldeb yr apelydd
 - gohirio'r gwrandawriad
 - gwrthod yr apêl [os yw pob parti arall i'r apêl yn methu ag ymddangos ac eithrio'r Swyddog Priso/Swyddog Rhestru/Awdurdod Bilio]
12. Pan fo'r Tribiwnlys/Panel Apêl wedi gwrthod yr apêl, caiff yr apelydd ofyn i'r penderfyniad hwnnw gael ei neilltuo os gallant ddangos rheswm da pam eu bod yn absennol.